Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

General Teaching Council for Wales

Rheolau Cofrestru

Mehefin 2010

CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

RHEOLAU COFRESTRU

TABL CYNNWYS

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli
3. Cyhoeddi'r Rheolau
4. Ymgeisio i gofrestru ar y Gofrestr
5. Hawl i gofrestru
6. Cynnwys y Gofrestr
7. Diwygio cofnodion ar y Gofrestr
8. Ffioedd cofrestru
9. Dileu cofnodion ar y Gofrestr
10. Mynediad i'r Gofrestr
11. Rhestr o athrawon a gofrestrwyd yn flaenorol
12. Darpariaeth gwasanaeth dros dro neu achlysurol

1.0 Rhagarweiniad

Enwi a chychwyn

1- (1) O dan Adran 134 *Deddf Addysg 2002*, a *Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru (Cymru) 2004 (OS 183))*, mae'n rhaid i bob athro cymwys sy'n cyflawni gwaith penodedig athro mewn ysgol a gynhelir fod wedi ei gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

(2) Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan:

(a) Deddf *Addysgu ac Addysg Uwch 1998,* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Addysg 2002*; a

(b) Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol, a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 28ain Ebrill 2010.

(2) Gellir dyfynnu'r Rheolau hyn fel *Rheolau Cofrestru* Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a dônt i rym ar 1af Mehefin 2010.

Dehongli

2-(1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr 'y Ddeddf' yw *Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998*, ac unrhyw ddiwygiadau fel y nodir yn *Neddf Addysg 2002*;

ystyr 'asiant' yw un person (yr asiant) sy'n gwneud trefniadau i berson arall (y gweithiwr) gyflawni gwaith ar gais, neu gyda chaniatâd, cyflogwr perthnasol (boed hynny drwy gontract ai peidio). Yn nodweddiadol, gallai asiantaeth athrawon cyflenwi breifat ddod o dan gategori asiant;

mae i 'corff priodol' yr un ystyr ag yn *Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005*;

ystyr 'y Cyngor' yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;;

'ystyr 'gorchymyn disgyblu' mewn perthynas ag athro cofrestredig yng Nghymru neu Loegr yw 'cerydd', 'gorchymyn cofrestru amodol', 'gorchymyn atal (gyda neu heb amodau)' neu 'orchymyn gwahardd' o fewn ystyr Atodlen 2 y Ddeddf;

ystyr 'sefydlu' yw cyfnod sefydlu a wasanaethir neu sy'n ofynnol ei wasanaethu yn unol â Rheoliadau a wnaed yng Nghymru a Lloegr o dan adran 19 y Ddeddf;

ystyr 'cyfnod sefydlu' yw cyfnod a wasanaethir yn unol â Rheoliadau a wnaed yng Nghymru a Lloegr o dan adran 19 y Ddeddf;

ystyr yr 'ADA' yw'r Awdurdod Diogelu Annibynnol;

ystyr 'aelod o'r cyhoedd' yw person nad yw'n gyflogwr o fewn ystyr y Rheolau hyn, neu berson nad yw'n gofrestredig neu nad yw'n gymwys i'w gofrestru;

ystyr 'Pwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol' yw Pwyllgor a sefydlwyd o dan Reoliad 6(1) *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001*, fel y'u diwygiwyd;

ystyr 'Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yw Pwyllgor a sefydlwyd o dan Reoliad 5(1) *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001*, fel y'u diwygiwyd;

'ystyr 'y Gofrestr' yw'r Gofrestr Athrawon Cymwys y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei sefydlu a'i chynnal yn unol ag Adran 3 y Ddeddf, fel y nodir yn *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000,*

ac ystyr 'cofrestru' yw cofrestru ar y Gofrestr;

ystyr 'athro cofrestredig' yw:

(a) person sydd wedi'i gofrestru ar y pryd o dan Adran 3 y Ddeddf;

(b) person a oedd wedi'i gofrestru o dan Adran 3 y Ddeddf ar adeg unrhyw ymddygiad neu drosedd honedig a gyflawnwyd ganddo; neu

(c) person sydd wedi gwneud cais i gael ei gofrestru o dan Adran 3 y Ddeddf;

ystyr 'cyflogwr perthnasol' yw:

(a) Awdurdod Addysg Lleol (AALl);

(b) person sy'n arfer swyddogaeth yn ymwneud â darparu addysg ar ran AALl;

(c) perchennog ysgol. Mae 'ysgol' yn cynnwys ysgol annibynnol;

(d) corff llywodraethu sefydliad addysg bellach,

a dehonglir 'cyflogwr presennol' a 'wedi'i gyflogi / a gyflogir / a gyflogwyd' fel sy'n briodol;

(2) Yn y Rheolau hyn, os nad yw'r bwriad croes yn amlwg:

(a) mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau yn y lluosog yn cynnwys yr unigol;

(b) mae is-baragraffau a pharagraffau wedi'u rhifo'n gyfeiriadau at y Rheol lle maent yn ymddangos;

(c) mae rheolau wedi'u rhifo'n gyfeiriadau at y Rheolau hyn.

Cyhoeddi'r Rheolau

3- (1) Bydd y Rheolau hyn:

(a) ar gael yn rhad ac am ddim ar gais i unrhyw athro cofrestredig neu athro sydd wedi gwneud cais i gofrestru;

(b) yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor;

(c) yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u diweddaru fel sy'n briodol.

Gwneud cais i gofrestru ar y Gofrestr

4-(1) Rhaid i gais i gofrestru ar y Gofrestr:

(a) cael ei wneud yn ysgrifenedig; a

(b) cael ei wneud ar ffurflen gais a ddarperir gan y Cyngor; a

(c) cael ei lofnodi gan yr ymgeisydd, a

(d) atodi cais i'r Cyngor ymgymryd â gwiriad manylach gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT).

(2) Rhaid i gais i gofrestru gynnwys y manylion canlynol:

(a) Rhif cyfeirnod athro yr ymgeisydd;

(b) Rhif cyfeirnod ADA yr ymgeisydd, os yw'n briodol;

(c) Enw llawn yr ymgeisydd;

(d) Dyddiad geni'r ymgeisydd;

(e) Cyfeiriad cartref neu gyfeiriad cyswllt a rhif ffôn yr ymgeisydd;

(f) Y dyddiad pan ymgymhwysodd yr ymgeisydd yn athro;

(g) Lle mae ymgeiswyr wedi treulio mwy na 3 mis mewn unrhyw wlad y tu allan i'r DU yn y 5 mlynedd flaenorol, neu wedi byw y tu allan i'r DU tan oed oedolyn, datganiad wedi'i lofnodi yn cadarnhau'r canlynol:

(i) a yw ef neu hi wedi cael euogfarn, rhybuddiad, rhybudd neu gerydd mewn perthynas â throsedd;

(ii) a oes unrhyw euogfarn neu ymchwiliad gan yr heddlu yn yr arfaeth mewn perthynas ag ef neu hi.

(h) Unrhyw wybodaeth arall o'r fath a allai fod yn ofynnol gan y Cyngor.

(3) Gall y Cyngor ofyn i unrhyw gais i gofrestru atodi dogfennau o'r fath y mae'n eu hystyried yn briodol.

(4) Dylid hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o unrhyw newid yn y manylion a nodir yn y cais i gofrestru.

Hawl i gofrestru

5- (1) Bydd gan berson hawl i gofrestru ar y Gofrestr ar yr amod ei fod ef/ei bod:

(a) yn meddu ar Statws Athro Cymwys (SAC) ar gyfer addysgu disgyblion oed ysgol;

(b) heb gael ei gwahardd/ei wahardd rhag addysgu gan y Cyngor, neu heb gael ei gwahardd/ei wahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yr awdurdod Diogelu Annibynnol neu unrhyw un o'r cyrff cyfwerth yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon;

(c) heb fethu â chwblhau cyfnod Sefydlu neu gyfnod prawf yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon;

(d) wedi'i bennu/ei phennu'n addas i'w gofrestru/i'w chofrestru gan y Cyngor, yn dilyn asesiad o gynnwys y gwiriad manylach gyda'r Swyddfa Cofnodion Troseddol fel y cyfeiriwyd ato yn Rheol 4(1)(d).

(2) Lle bydd y Cyngor yn penderfynu gwrthod cais i gofrestru o dan Reol 5(1), bydd yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, gan roi rhesymau dros y gwrthodiad.

Cynnwys y Gofrestr

6-(1) Cofnoder y materion a restrir yn Atodlen 1 *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000 yn erbyn enw person sydd wedi'i gofrestru ar y Gofrestr.*

(2) Gall y Cyngor ddarparu ar gyfer cofnodi materion ychwanegol yn y Gofrestr fel y tybir ganddo yn angenrheidiol, ac y mae'n eu hystyried yn faterol berthnasol i gofrestriad rhywun.

(3) Lle mae gorchymyn disgyblu wedi dod i ben, gallai'r Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer cofnodi'r gorchymyn wedi darfod ar y Gofrestr gan nodi'n glir fod y gorchymyn wedi dod i ben.

(4) Ni fydd unrhyw beth yn y rheol hon yn atal y Cyngor rhag nodi ar y Gofrestr unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i gofrestriad rhywun

Diwygio cofnodion ar y Gofrestr

7- (1) Rhaid i athro cofrestredig hysbysu'r Cyngor o fewn mis o unrhyw newid mewn unrhyw fanylion a gofnodir yn y Gofrestr mewn perthynas ag ef neu hi.

(2) Bydd y Cyngor, i'r graddau y bo'n angenrheidiol, yn diwygio'r Gofrestr:

(a) i weithredu'r rhybudd a roddwyd o dan Reol 7(1);

(b) i weithredu unrhyw benderfyniad neu orchymyn disgyblu a wnaed gan y Cyngor;

(c) i weithredu unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i sylw'r Cyngor ac sydd, yn ei farn ef, yn galw am ddiwygiad er mwyn cadw cywirdeb y Gofrestr.

(3) Gall y Cyngor ofyn am brawf dogfennol o ddiwygiadau neu ychwanegiadau at y Gofrestr, gan gynnwys cymwysterau, newid enwau neu brofedigaethau.

Adfer cofnodion ar y Gofrestr

8- (1) Lle bydd athro cofrestredig, wrth edrych ar y Gofrestr, yn canfod bod cofnod mewn perthynas ag ef neu hi wedi'i hepgor, rhaid iddo neu iddi roi gwybod i'r Cyngor cyn gynted ag y bo modd gydag unrhyw dystiolaeth ategol o'r fath sydd ar gael i'r athro cofrestredig.

(2) Bydd y Cyngor hefyd yn adfer, os yw'n fodlon ar y dystiolaeth, unrhyw gofnod a gaiff ei adrodd i'r Cyngor o dan Reol 8(1), neu a gaiff ei adrodd i'r Cyngor drwy unrhyw ddull arall.

(3) Caiff athro ar y Gofrestr sy'n destun Gorchymyn Atal (gyda neu heb amodau) gan y Cyngor, ei adfer i'r Gofrestr ar ddiwedd y cyfnod atal, yn amodol ar y canlynol:

(a) darpariaethau Rheolau 5(1)(b), 5(1)(c) a Rheol 9(3);

(b) cydymffurfio ag unrhyw amodau a osodwyd gan Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol neu Bwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol;

(4) Gall athro ar y Gofrestr sy'n destun Gorchymyn Gwahardd a osodwyd gan y Cyngor wneud cais i ailymuno â'r Gofrestr yn unol â Rheol 38 *Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu* y Cyngor.

Ffioedd cofrestru

9- (1) Gall y Cyngor godi ffioedd blynyddol, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ("ffi gofrestru") am:

(a) cofrestru athro ar y Gofrestr;

(b) y gwaith o gadw cofnodion ar y Gofrestr bob blwyddyn; a

(c) adfer cofnodion ar y Gofrestr.

(2) Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r ffi gofrestru, pan fydd yn cytuno ar swm newydd o dan Reol 9(1), ar wefan y Cyngor ac ar ffurf llythyr a fydd ar gael i:

(a) athrawon cofrestredig;

(b) cyflogwyr ac asiantau;

(c) unrhyw berson sy'n gofyn am yr wybodaeth.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), gall y Cyngor wrthod cais i gofrestru nes bod y ffi gofrestru wedi'i thalu yn unol â Rheol 9(1)(a).

(4) Gall y Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau lle na chodir ffioedd.

(5) Bydd y ffi gofrestru, yn unol â Rheol 9(1)(b) yn daladwy:

(a) i'r Cyngor ar 1af Ebrill bob blwyddyn neu cyn y dyddiad hwnnw; a

(b) yn unol â rheoliad 4 *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2002*; neu

(c) drwy unrhyw ddull arall fel y cyfarwyddir gan y Cyngor.

(6) At ddibenion y ffi gofrestru, mae "blwyddyn" yn dechrau ar 1af Ebrill ac yn gorffen ar 31ain Mawrth y flwyddyn ddilynol.

(7) Lle bydd athro cofrestredig yn methu â thalu'r ffi gofrestru er mwyn cael ei gadw ar y Gofrestr o dan Reol9(1)(b) ar gyfer y flwyddyn pan fydd y ffi gofrestru'n ddyledus, bydd y Cyngor:

(a) yn anfon hysbysiad at yr athro cofrestredig yn gofyn i'r ffi gofrestru gael ei thalu; a

(b) yn gallu atgoffa'r athro cofrestredig y bydd methu â thalu'r ffi gofrestru o fewn cyfnod amser penodol arwain at ddileu cofnod yr athro cofrestredig hwnnw oddi ar y Gofrestr, o dan Reol 10(1)(a).

Bydd y Cyngor yn defnyddio'r cyfeiriad cartref a /neu'r cyfeiriad e-bost a gedwir ar y Gofrestr yn erbyn enw athro at y diben hwn.

Dileu cofnodion oddi ar y Gofrestr

10- (1) Gall y Cyngor ddileu cofnodion oddi ar y Gofrestr lle:

(a) mae athro cofrestredig wedi methu â thalu'r ffi gofrestru o dan Reol 9(1)(b) ar ôl i'r Cyngor roi hysbysiad priodol o dan Reol 9(7);

(b) gwneir Gorchymyn Gwahardd neu Orchymyn Atal gan y Cyngor mewn perthynas â'r athro;

(c) caiff gorchymyn disgyblu ei osod gan Gyngor Addysgu Cyffredinol arall yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon; o ganlyniad hyn, caiff yr athro cofrestredig ei dynnu oddi ar y Gofrestr yn yr awdurdodaeth honno;

(d) caiff athro cofrestredig ei wahardd / anghymhwyso gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Lloegr, yr ADA neu unrhyw un o'u cyrff cyfwerth yn y Deyrnas Unedig rhag gweithio fel athro cymwys mewn ysgol a gynhelir, ysgol arbennig nas cynhelir neu Ysgol Annibynnol;

(e) bydd athro cofrestredig yn methu â chwblhau cyfnod Sefydlu statudol yn llwyddiannus, neu lle bydd y corff priodol wedi pennu ei fod wedi methu'r cyfnod Sefydlu;

(f) nad yw cyfeiriad cyswllt yr athro'n hysbys ac mae ef/hi'n methu â hysbysu'r Cyngor o gyfeiriad effeithiol a chyfoes erbyn 1af Ebrill;

(g) yn unol â Rheol 10(2), bydd athro cofrestredig yn gwneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor ei ddatgofrestru ar y sail:

(i) ei fod/ei bod wedi gorffen caei ei gyflogi fel athro/ei chyflogi fel athrawes mewn ysgol a gynhelir neu mewn ysgol arbennig nas cynhelir, a

(ii) nad yw'n bwriadu chwilio am waith fel athro/athrawes mewn ysgolion o'r fath.

(h) bydd athro cofrestredig:

(i) yn dechrau gweithio fel athro cymwys mewn ysgol a gynhelir, ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol Annibynnol; neu

(ii) yn symud swydd fel athro cymwys o un ysgol a gynhelir, ysgol arbennig nas cynhelir neu ysgol Annibynnol i'r llall,

ac nid yw wedi'i gofrestru gyda'r ADA.

(i) caiff y Cyngor ei hysbysu yn ysgrifenedig o farwolaeth athro cofrestredig. Lle darperir yr hysbysiad hwn gan y perthynas agosaf, bydd rhaid cynnwys copi o'r dystysgrif marwolaeth.

(2) Ni fydd Rheolau 10(1)(f) a 10(1)(g) yn gymwys lle:

(a) bydd y Cyngor yn cael cyfeiriad yn ymwneud â honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu euogfarn o drosedd berthnasol, neu gŵyn yn cynnwys honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol yn erbyn athro cofrestredig; neu

(b) mae'r athro cofrestredig yn cael ei ymchwilio gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r ADA.

(3) Lle bydd y Cyngor yn dileu cofnod mewn perthynas ag athro cofrestredig, bydd y Cyngor:

(a) yn rhoi gwybod iddo ef/iddi hi (ac eithrio pan fydd Rheol 10(1)(f) yn gymwys); a

(b) yn gallu hysbysu cyflogwr presennol yr athro;

ynglŷn â'r rhesymau dros ddileu'r cofnod.

(4) Ni fydd unrhyw beth yn y Rheol hon yn atal y Cyngor rhag dileu cofnod ar y Gofrestr a wnaed drwy gamgymeriad neu gywiro unrhyw fân-wallau a ymddengys ar y Gofrestr.

Mynediad i'r Gofrestr

11- (1) Gall y Cyngor ryddhau enwau athrawon cofrestredig ar y Gofrestr mewn dull a bennir gan y Cyngor.

(2) Bydd y Cyngor yn rhoi copi o'r wybodaeth a nodir ar y Gofrestr yn erbyn enw athro cofrestredig, i'r athro cofrestredig hwnnw, ar gais;

(3) Os gofynnir gan gyflogwr neu asiant neu ddarpar gyflogwr neu asiant athro cofrestredig, bydd y Cyngor yn rhoi i'r sefydliad hwnnw yr wybodaeth a nodir yn Atodlen 2 *Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000*.

(4) Wrth dderbyn cais gan aelod o'r cyhoedd, gall y Cyngor ei hysbysu a yw rhywun yn athro cofrestredig ai peidio.

(5) Gall y Cyngor ddarparu gwybodaeth a nodir ar y Gofrestr i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Lloegr, yr ADA a Chynghorau Addysgu yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Rhestr o athrawon a gofrestrwyd yn flaenorol

12-(1) Bydd y Cyngor yn cadw manylion yr athrawon sydd wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr.

Darpariaeth gwasanaeth dros dro neu achlysurol

13- (1) Nid yw'r Rheolau hyn yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaeth dros dro neu achlysurol o dan Gyfarwyddeb 2005/36/EC yr UE. Penderfynir ar geisiadau o'r fath yn unol â'r Gyfarwyddeb.